Adferiad

# Tuag at Ddyfodol Tecach:

## Strategaeth ar gyfer Ansawdd, Cynhwysiant, Arloesedd ac Uchelgais mewn Adferiad

# Ein Strategaeth

2025 – 2030

Mae Adferiad Recovery yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant

Adferiad Recovery is a registered charity and company limited by guarantee

Cyfeiriad cofrestredig: Tŷ Dafydd Alun, 36 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8LA Rhif Cofrestru: 2751104 Rhif Elusen: 1039386

Registered address: Tŷ Dafydd Alun, 36 Princes Drive, Colwyn Bay, LL29 8LA Registered Number: 2751104 Charity Number: 1039386

# Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol

Cynnwys ....................2

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol ....................3

Amdan Adferiad ....................3

Beth mae Adferiad yn ei wneud? ....................4

Beth mae eraill yn ei ddweud am Adferiad? ....................4

Ein Gwerthoedd a sut rydym yn eu harddangos ....................7

Rydym yma ar gyfer y rhai sydd ein hangen ....................7

Beth rydyn ni'n ei wneud ....................8

Ein gwasanaethau ....................8

Ein hymgyrchu ....................8

Ein hymagwedd ....................8

Ein Strategaeth ....................9

Tair Colofn ein Strategaeth ....................10

1. Llais ....................10
2. Gwasanaethau arloesol, cynhwysol, o ansawdd uchel ....................11
3. Bod yn gyflogwr o ddewis ....................11

Ein Negeseuo ....................12

Sut rydyn ni'n gwerthuso'r hyn rydyn ni'n ei wneud ....................12

Ein Targedau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ....................13

Ein Hadnoddau a Chynaliadwyedd ....................13

Ein Partneriaid ....................14

# Rhagair gan y Cadeirydd a’r Prif Swyddog Gweithredol

Mae tair mlynedd cyntaf Adferiad wedi bod yn rhai rhyfeddol: rydym wedi parhau i dyfu, i arloesi, ac i eirioli, er gwaethaf yr argyfwng credyd, a’r pandemig Covid-19. Roedd Adferiad yn glir na fyddai’r argyfwng byd-eang yn golygu rhoi’r ‘ffidil yn y to’ a dibynnu ar eraill. Gwnaethom gynyddu ein hymgysylltiad gyda’n buddiolwyr, darparu cefnogaeth i’r rhai oedd â dim, a sicrhau y gallai ein tîm barhau gyda’u gwaith hanfodol yn ddiogel. Ni allem fod wedi gwneud hynny heb dîm mor wirioneddol angerddol ac ymroddedig ac mae’n rhaid i ni gydnabod hynny ym mhopeth a wnawn.

Mae’r strategaeth newydd yma’n adeiladu ar y sylfaen rhagorol yma i osod allan ein huchelgeisiau ar gyfer y pum lynedd nesaf. Mae ein nodau yn syml: mae’n rhaid galluogi pobl sydd wedi eu gwthio i’r cyrion oherwydd anghenion iechyd a gofal cymdeithasol i fyw bywyd o gynhwysiant, ystyrlon, a gobaith. Credwn yn gryf y dylai ein ffocws, fel yn ein strategaeth ddiwethaf, barhau i fod ar Lais, Arloesedd, a Gwasanaethau o Ansawdd, ac mae’r strategaeth newydd yma yn gosod allan ein huchelgeisiau, ein mesurau allweddol ar gyfer yr uchelgeisiau hyn, a’n prif gamau gweithredu ar sut y byddwn yn cyflawni’r nodau hyn.

Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn disgwyl gweld newid mawr yn y modd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; sut y mae hyn yn cysylltu i gyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder troseddol; a sut y bydd cyflogadwyedd a chartrefi o ansawdd yn gydrannau hanfodol o gymdeithas lwyddiannus a thosturiol. Gweithio gyda’r rhai hynny sydd â’r anghenion mwyaf cymhleth, fel eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a’u cynnwys, sy’n gyrru ein huchelgeisiau.

Uchelgais Adferiad ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw, trwy ddarparu’r cyfle i gael adferiad diogel gyda chefnogaeth, y byddwn yn gweld mwy o’n buddiolwyr yn eu cartrefi eu hunain, gyda swyddi neu alwedigaeth ystyrlon, bywyd teuluol, a’r cyfle i wneud dewisiadau am eu dyfodol. Mae ein taith ymlaen wedi ei gwella’n sylweddol gyda Diverse Cymru’n ymuno â theulu Adferiad, gan gefnogi ein taith i fod yn Sefydliad sy’n Cadarnhau Hawliau.

Ein Haelodaeth yw sut rydym yn sicrhau bod ein cenhadaeth yn gysylltiedig i anghenion ein buddiolwyr, ac fe hysbysir arweiniad a throsolwg llywodraethol ein bwrdd medrus o Ymddiriedolwyr gan eu hymrwymiad i’n huchelgeisiau. Edrychwn ymlaen i gyfnod heriol ond hynod ystyrlon yn nyfodol Adferiad a’n buddiolwyr.

# Amdan Adferiad

**Mae Adferiad yn galluogi trawsnewidiad positif ar gyfer unigolion sy’n wynebu heriau iechyd cymhleth ac amodau cymdeithasol anodd – rhai sy’n aml yn cael eu hanwybyddu ac ddim yn cael eu clywed – trwy ystod o wasanaethau ac ymgyrchoedd sy’n ffocysu ar adferiad, a chefnogaeth ymroddedig staff a gwirfoddolwyr medrus.**

Mae Adferiad, o’i gwreiddiau rhyw 50 mlynedd yn ôl, wedi cyflawni ar ei chenhadaeth i ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth, a chymorth i unigolion sy’n ddibynnol ar alcohol a sylweddau eraill, gydag anghenion iechyd meddwl, a salwch meddwl difrifol, a’u teuluoedd a’u gofalwyr.

Fel elusen a chwmni cyfyngedig trwy warant, mae ei chenhadaeth yn seiliedig ar gyfuniad o egni, uchelgais, a gweledigaeth yr holl sefydliadau sydd nawr yn rhan o Adferiad, gobeithion a dymuniadau’r rhai rydym yn eu cefnogi, a’r rheidrwydd i wella’n barhaus.

Roedd rhai o'r sefydliadau allweddol ymunodd i ffurfio Adferiad yn cynnwys: **CAIS**, **Crossroads Canol a Gorllewin Cymru** (ei hun wedi ei ffurfio o elusennau Crossroads ym Mrycheiniog a Maesyfed, Ceredigion, Sir Fynwy, a Sir Benfro), **Diverse Excellence Cymru**, **Hafal** (y National Schizophrenia Fellowship Cymru yn flaenorol), **CJIW**, **Jigsaw**, ac **WCADA**.

Mae cenhadaeth Adferiad nawr yn cynnwys ymrwymiad llwyr i fod yn Sefydliad sy'n Cadarnhau Hawliau, a chydag uniad diweddar Adferiad a Diverse Excellence Cymru, cefnogir ei huchelgais ymhellach wrth ymgysylltu gyda'r holl bobl sydd angen neu allai fod angen cefnogaeth.

Efallai, ar yr olwg gyntaf, ei fod yn ymddangos bod Adferiad yn darparu ystod ehangach a mwy amrywiol o wasanaethau na llawer o sefydliadau eraill. Ond mae hyn o ganlyniad i'n haddewid i ofalu am y person cyfan. Er enghraifft, efallai bod gan berson broblem iechyd meddwl, a chaethiwed, a'u bod yn ddigartref. Os na fyddem wedi ein sefydlu i ymdopi gydag anghenion cymhleth ac/neu anghenion sy'n cyd-ddigwydd byddai perygl i lawer o'n buddiolwyr gael eu colli yn y bylchau.

Gweithiwn gyda phobl, nid cyflyrau neu ddiagnosis. Nid ydym yn cyfyngu pwy all geisio am gefnogaeth gennym: ***i ni mae am y person cyfan, nid am adnabod "twll" yn y person.***

## Beth mae Adferiad yn ei wneud?

**Arweinir Adferiad gan y bobl mae'n eu cefnogi.** Mae ein Haelodau yn sicrhau ein bod wastad yn gweithredu er budd gorau ein buddiolwyr.

Mae Adferiad yn darparu gwasanaethau rhagorol ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, salwch meddwl difrifol, defnydd sylweddau a chaethiwed eraill, a'r rhai sydd ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd ac anghenion cymhleth.

Mae Adferiad yn ymgyrchu gydag, ac ar ran, y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau, eu teuluoedd, eu gofalwyr, eu ffrindiau, ac i'r rhai sydd angen eu llais oherwydd nad ydynt yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

## Beth mae eraill yn ei ddweud am Adferiad?

### Dywed ein cleientiaid:

*"Ni wn beth fyddwn i wedi ei wneud heb Adferiad, oherwydd nid wyf erioed wedi bod yn annibynnol. Mae gennyf reolaeth ar fy mywyd nawr. Does dim byd fel cael fy lle fu hun, goriad i'n nrws fy hun. Mae Adferiad wedi rhoi hynny i mi. Nid wyf yn meddwl y buaswn i yma heb Adferiad, oherwydd rwyf wedi myfyrio o flaen llaw am roi diwedd ar fy mywyd, ond rŵan mae popeth yn wych yn y diwedd ac rwy'n gyfrifol am fi fy hun."*

*"Rwy'n teimlo mor ffodus fy mod wedi cael fy nghefnogi gan Adferiad ac mae fy llesiant wedi gwella'n aruthrol."*

*"Mae Adferiad yn sefydliad gwych; bob amser yn ddyfeisgar a dychmygus. Mae'n achubiaeth go iawn i ofalwyr, sydd o dan straen annirnadwy. Mae Adferiad yn wasanaeth cefnogaeth hanfodol, sy'n cyflawni ar bob agwedd"*

## Dywed ein Cyllidwyr a'r Arolygiaeth:

*"Mae Adferiad wedi bod yn darparu cefnogaeth i unigolion gyda materion iechyd meddwl a llesiant ers nifer o flynyddoedd ar draws ardaloedd y byrddau iechyd. Maent wedi dangos dro ar ôl tro pa mor dda ydynt am weithio gyda chomisiynwyr a sefydliadau Trydydd Sector eraill, yn ogystal â sefydliadau partner megis yr awdurdod lleol a'r Heddlu. Nid ydym erioed wedi bod ag unrhyw bryder ynghylch eu darpariaeth gwasanaeth, yn wir maent wedi mynd y tu hwnt i'n disgwyliadau ar nifer o achlysuron"*

*"Mae Adferiad wedi profi eu hunain i fod yn ardderchog am adnabod anghenion cleientiaid. Maent yn hyblyg wrth ymateb i'r anghenion hyn ac, ble'n bosib, yn teilwra'r ddarpariaeth gwasanaeth a'r gweithgareddau i anghenion y cleient. Mae'r hyblygrwydd yma yn unigryw i Adferiad ac nid yw'n un rwyf wedi ei brofi'n aml gan Wasanaethau eraill. Rwyf hefyd yn gweld Adferiad yn ardderchog am weithio ar y cyd."*

*"Mae Adferiad yn gweithio mewn modd a hysbysir gan drawma. Mae Adferiad yn deall bod adeiladu gwytnwch a rhwydweithiau y tu allan i wasanaethau proffesiynol yn ganolog i lwyddiant pobl unwaith maent wedi gadael eu llety â chefnogaeth ac yn eu cefnogi i ymgysylltu eto gyda theulu (ble'n briodol), adeiladu rhwydweithiau drwy eu hobïau a'u diddordebau eu hunain, a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda defnyddwyr gwasanaeth eraill o fewn y prosiect."*

## Dywed ein Gwleidyddion:

*"Mae Adferiad wastad yno ac wastad wedi bod yno, ac mae'r ymdeimlad yna o ddilyniant ac o ddibynadwyedd ym mywydau pobl, yn ased enfawr sydd gan y Sefydliad. Mae hwn yn sefydliad sydd wedi bod mor ddyfeisgar yn y ffyrdd mae'n meddwl ymgyrchu ar faterion neu bryderon hirhoedlog sydd ddim yn mynd i ffwrdd ac, yn hollbwysig, mae Adferiad wastad yn dod at y Llywodraeth gyda datrysiadau i'w cynnig, yn hytrach na chyflwyno problemau."*

- Mark Drakeford AS, Cyn Brif Weinidog Cymru

*"Mae Cynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru'n parhau i fod yn allweddol i'n helpu ni i gyflawni nodau ein cynllun gweithredu Cymru Gwrth-Hiliaeth. Mae'r cynllun yn gyrru gweithrediadau parhaus, yn hyrwyddo perchnogaeth, ac yn sicrhau atebolrwydd."*

- Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru

## Beth ddywed ein partneriaid:

---

*“Mae gennym berthynas waith lwyddiannus gydag Adferiad ers dros 10 mlynedd. Mae staff Adferiad wastad yn broffesiynol ac yn delio gydag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau’n brydlon. Mae gennym berthynas waith dda ac yn cyfarfod yn flynyddol, o leiaf, i drafod y prosiectau ac unrhyw faterion eiddo”*

*“O weithio gydag Adferiad ar nifer o geisiadau ar y cyd, rydym wedi gweld gwybodaeth, cefnogaeth a sgiliau’r sefydliad a rheolwyr penodol yn drawiadol. Mae eu hymrwymiad i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan sicrhau eu bod yn ganolog i’r ddarpariaeth yn rhywbeth i’w edmygu a’i ddyblygu.”*

*“Wedi cynnal yr is-grŵp therapi antur am y 2 flynedd flaenorol, hoffwn ddweud pa mor effeithiol a chyfryngol mae staff Adferiad wedi bod wrth hwyluso’r cyfarfodydd hyn, mae eu proffesiynoldeb o fewn y gofodau hyn a’u hymroddiad i ymdrechu am y gofal gorau posib sydd ar gael ar gyfer y bobl maent yn eu cefnogi’n amlwg yn eu gweithrediadau bob amser. Maent yn gallu llenwi’r bwlch ble gallai gweithwyr cefnogol statudol gael anhawster i ymgysylltu mor uniongyrchol gyda’r defnyddwyr gwasanaeth ac rydym yn hynod ddiolchgar am eu cefnogaeth.”*

---

## Ein Gwerthoedd a sut rydym yn eu harddangos

### Ffordd Adferiad:

Gwnawn bethau ein ffordd ni – Ffordd Adferiad. Yn Adferiad, rydym yn blaenoriaethu y person ac nid yr amgylchiadau, gan roi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn. Yn hytrach na chymryd ymagwedd 'un maint i bawb', ymdrechwn i ddeall anghenion, amgylchiadau a hoffterau unigryw pob person.

Mae ein ffocws ar ddarparu cefnogaeth a chymorth wedi eu teilwra sydd wedi eu dylunio'n benodol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Trwy fabwysiadu'r ymagwedd yma, anelwn i rymuso unigolion a sicrhau bod ganddynt lais a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Credwn, trwy adnabod a gwerthfawrogi unigrywiaeth pob person, y gallwn ddarparu gwasanaethau sy'n wirioneddol ystyrlon a dylanwadol.




Rydym yn Sefydliad sy'n Cadarnhau Hawliau sy'n hyrwyddo tegwch a chynhwysiant. Cefnogwn bobl i ffynnu trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol, yn arbennig ar gyfer cymunedau o liw ac unigolion sy'n wynebu gwahaniaethu ar sail rhywioldeb, rhyw, ailbennu rhywedd, oed, anabledd, a nodweddion gwarchodedig eraill. Mae ein gwaith wedi ei sylfaenu yn y gred bod pawb yn haeddu parch, llais, a chyfle, ac rydym yn weithredol yn herio anghydraddoldeb ac yn cael gwared o'r rhwystrau i gyfle, cynhwysiant a chyfiawnder.

## Rydym yma ar gyfer y rhai sydd ein hangen

### Mae ein buddiolwyr yn bobl o unrhyw oed sydd angen help gyda phroblemau maent yn eu hwynebu mewn perthynas â:

- Llesiant seicolegol ac emosiynol
- Salwch meddwl difrifol
- Anghenion iechyd meddwl neu anghenion dysgu ychwanegol
- Salwch o unrhyw fath
- Defnydd alcohol neu gyffuriau
- Gamblo
- Caethiwed eraill
- Anghenion cymhleth ac/neu anghenion sy'n cyd-ddigwydd
- Troseddu neu gysylltiad arall yn y system gyfiawnder troseddol
- Gwasanaeth yn y lluoedd arfog neu'r gwasanaethau brys
- Allgau cymdeithasol
- Gweithgaredd economaidd

yn ogystal â'u teuluoedd, gofalwyr, ac eraill a effeithir.

### Rydym yma hefyd i hysbysu, i ddylanwadu, ac i eirioli dros ein buddiolwyr gyda:

- Gweithwyr proffesiynol
- Y Cyhoedd Ehangach
- Llunwyr Polisi
- Adrannau Llywodraethol

Amlygir yr heriau niferus a wynebir gan ein buddiolwyr yn atodiad 1.

# Beth rydyn ni'n ei wneud

## Ein gwasanaethau

Mae Adferiad yn darparu dros 150 o wasanaethau ar draws Cymru, ac yn ein huned yn Sir Gaerhirfryn darparwn wasanaethau ar gyfer pobl ar draws Lloegr. Mae ein gwasanaethau'n amrywio o'r lefelau cefnogaeth mwyaf cymhleth mewn ysbytai cleifion mewnol drwodd i gyfeillio cymunedol ac ymgysylltiad cymdeithasol.

Darparwn wasanaethau arbenigol ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth, gan arbenigo mewn salwch meddwl, caethiwed a dibyniaeth. Mae ein gwasanaethau'n ymgysylltu gyda 1,091 o bobl bod dydd, trwy ein tîm o 683 o staff a 111 o wirfoddolwyr. Cynhyrchir ein holl wasanaethau ar y cyd mewn partneriaeth gyda'r rhai sy'n eu derbyn a'r tîm staff sy'n eu darparu.

## Ein hymgyrchu

Mae Adferiad yn sefydliad sy'n ymgyrchu sydd yn ganolog i yrru am newid mewn iechyd meddwl, defnydd sylweddau a gofal cymdeithasol. Mae ymgyrchu'n ganolog i'n gwaith ac yn ein galluogi i ategu profiad byw, i ddylanwadu ar bolisi, ac i ddwyn penderfynwyr i gyfrif.

Rydym yn ymrwymedig i wella deddfwriaeth iechyd meddwl, a pholisi cysylltiedig, a gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl difrifol a rhai sydd â heriau defnydd sylweddau a chaethiwed. Eiriolwn dros fynediad teg i wasanaethau ar draws Cymru ac i bobl i dderbyn y gefnogaeth gywir ar yr adeg cywir, gan yrru gwelliannau systemig i greu cymdeithas decach, fwy tosturiol.

## Ein hymagwedd

### Rydyn ni am Bobl i Gyd

"Mae Adferiad yn cymryd ymagwedd person cyfan, gan rymuso unigolion i wneud cynnydd gyda'u hadferiad trwy fynd i'r afael nid yn unig gyda'u symptomau ond hefyd eu hamgylchiadau bywyd ehangach, eu dewisiadau, a'u llesiant."

### Helpu unigolion i greu bywyd maent yn ei werthfawrogi a'i fwynhau

Mae'r hawl a'r gallu i wneud dewisiadau mewn bywyd yn hanfodol. Weithiau rydym yn gwneud penderfyniadau gwael, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan bobl y celfi i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

### Mae'n rhaid i Adferiad sicrhau bod hawliau unigolion yn flaenaf yn ein meddyliau ym mhopeth a wnawn.

Ond nid yw hyn yn ddigon: fel sefydliad ymgyrchu, cwndid ar gyfer barn ein buddiolwyr, ac fel cyflogwr mawr, mae gennym ddyletswydd foesol. Fel elusen, mae gennym ddyletswydd budd cyhoeddus i wneud llawer mwy na chydymffurfio â'r lleiafswm.

### Mae Adferiad yn ymdrechu i ddod yn Sefydliad sy'n Cadarnhau Hawliau

Mae Sefydliad sy'n Cadarnhau Hawliau yn weithredol yn cynnal, amddiffyn a hyrwyddo hawliau sylfaenol a rhyddid unigolion, ac yn gweithredu ar sail yr egwyddorion o gydraddoldeb, urddas a chyfiawnder, gan sicrhau bod eu polisïau, eu hymarferion a'u diwylliant yn alinio gyda safonau hawliau dynol. Rydym yn ymgysylltu gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton ym Mhrifysgol Abertawe, Y Coleg Nyrsio Brenhinol, a'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt i ddysgu ac i ddatblygu'n barhaus.



# Ein Strategaeth

Mae ein strategaeth yn ddibynnol ar ein hymrwymiad i **Ansawdd, Arloesedd a Chynhwysiant**, ac yn ffocysu fwyaf un ar **Uchelgais**.

Mae adferiad o salwch meddwl difrifol ac o ddefnydd sylweddau a chaethiwed eraill yn bosibl, yn gyraeddadwy, ac ddim yn rhywbeth i gilio rhagddo. Tra mae Adferiad yn ymrwymedig i ymagwedd o leihau niwed yn ei holl wasanaethau, nid dyma ddiwedd y daith, a dylem fod yn llawer mwy uchelgeisiol ar gyfer ein buddiolwyr.

Credwn mewn cefnogi pobl i wneud penderfyniadau bywyd, weithiau mae'r rhain yn bositif, weithiau nid ydynt yr un mor bositif, ond credwn, cyn belled a'n bod yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel mewn amseroedd anodd, y gallwn eu cefnogi tuag at adferiad.

**Ein huchelgais yw y gall unrhyw un yr ydym yn eu cefnogi wneud cynnydd gyda'u hadferiad, ddatblygu gwytnwch newydd, a chymryd rheolaeth o'u dewisiadau. Er mwyn cyflawni hyn mae'n cymryd ymagwedd person cyfan, grymuso a hunan-reolaeth, ac ymrwymiad i wneud cynnydd. Nid oes cyfyngder amser ar yr ymrwymiad hwn, ond mae'n hanfodol i wneud newidiadau bywyd.**

# Tair Colofn ein Strategaeth

Mae tair colofn yn sail i'n strategaeth gyfan sef:

1. **Llais**
2. **Gwasanaethau arloesol, cynhwysol, o ansawdd uchel**
3. **Bod yn gyflogwr o ddewis**


Gyda phopeth a wnawn wedi ei wreiddio mewn diogelwch, cynaliadwyedd, ac egwyddorion ariannol sicr.

## 1. Llais

Sicrhau bod ein buddiolwyr yn cael eu clywed, ategu eu lleisiau trwy ein hymdrechion ymgyrchu a'n hymagwedd i ddarpariaeth gwasanaeth, tra'n uno lleisiau'r miloedd rydyn ni'n eu cefnogi i eirioli am newidiadau systemig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn gwella mynediad i wasanaethau amserol, teg, o ansawdd uchel ar draws Cymru, ar eu rhan.

### Nodau Strategol Ein Llais

I gyflawni'r nodau hyn, rydym wedi adnabod pedair ardal allweddol i ffocysu arnynt: dylanwadu ar bolisi a chanfyddiad, ategu llais profiad byw, arwain gydag arbenigedd, rhagoriaeth, ac enw da, ac eirioli dros newid tra'n hyrwyddo atebolrwydd.




Ffig 1: Ein pedwar prif nod i'r Llais

## 2. Gwasanaethau arloesol, cynhwysol, o ansawdd uchel

- Mae'n rhaid i'n buddiolwyr fod yn ganolog i'n polisi, dyluniad system a gwerthuso.
- Mae'n rhaid i ffocws ymchwil, cyd-gynhyrchu, a deilliant fod yn gonglfaen i'r system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan.
- Ansawdd ym mhopeth a wnawn. Anelwn i fod yn arweinwyr, ac i gefnogi ac i eirioli dros ein buddiolwyr er mwyn iddynt dderbyn y gorau, o ran y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a'r rhai a ddarperir gan eraill.
- Dim drws anghywir – Mae Adferiad naill ai'n darparu'r gwasanaeth ein hunain, neu'n cefnogi'r unigolyn tuag y rhai a allai eu helpu.
- Rydym yma i bawb sydd ein hangen ac yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth rydyn ni'n ei gynnig.
- Dathlwn wahaniaeth a'r cyfoeth ddaw i'n cymdeithas o'i herwydd.

## 3. Bod yn gyflogwr o ddewis

- I gael ein hadnabod fel cyflogwr o ddewis yn y sector, gyda gweithlu medrus, ymgysylltiol â pherfformiad uchel a diwylliant cynhwysol.
- I ddenu unigolion amrywiol, talentog sy'n alinio gyda'n gwerthoedd busnes, a sicrhau integreiddiad di-dor i hyrwyddo llwyddiant a chadw staff.
- I ddatblygu sgiliau, perfformiad, ac ymddygiadau sy'n alinio gyda gwerthoedd busnes ac anghenion y dyfodol yn barhaus.
- I feithrin amgylchedd cynhwysol, sy'n grymuso, sy'n magu ymgysylltiad ac yn cefnogi llesiant.
- I ddarparu cyngor arbenigol, mewnwelediadau'n seiliedig ar ddata sy'n siapio strategaethau pobl, mynd i'r afael ag anghenion busnes, ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gyflawni achrediadau'r diwydiant.

# Ein Negeseuo

Mae Adferiad yn ymrwymedig i osod profiad byw yn ganolog i newid. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ategu lleisiau y rhai rydym yn eu cefnogi, gan sicrhau eu bod yn siapio gwasanaethau ac yn dylanwadu ar bolisïau yng Nghymru a thu hwnt.

Trwy eiriolaeth ac arbenigedd, ymdrechwn i greu ymagwedd dosturiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i iechyd meddwl, defnydd sylweddau, a gofal cymdeithasol – gan yrru gwelliannau systemig, ystyrlon ar gyfer llwybr mwy cynhwysol a grymusol i adferiad.

Mae ein negeseuo'n adlewyrchu'r uchelgais yma, gan arddangos ein hymroddiad i fod yn lais beiddgar a thrawsnewidiol dros newid.

- **Stori Joy** (Gofalwr / Salwch Meddwl Difrifol): https://youtu.be/jbrkpn6D0ZI
- **Stori Liz** (Gofalwr / Profedigaeth / Hunanladdiad): https://youtu.be/IPxGZYo3R8U
- **Stori Charlie** (Defnydd Cetamin): https://youtu.be/6VDKDU_FGQM
- **Stori Jemma ac Elliot** (Tai a Iechyd Meddwl): https://youtu.be/AgY3e5JB5m4
- **Stori Mohammed** (Iechyd Meddwl a Byw gyda chefnogaeth / BSL): Tystebau gan Mandy, Muhammed, Andrew a Rebecca



## Sut rydyn ni'n gwerthuso'r hyn rydyn ni'n ei wneud

Arweinir Adferiad gan ei haelodau, yn lleol o fewn ei gwasanaethau ac ar y lefel llywodraethol gydag etholiadau i aelodau ar gyfer cynrychiolaeth ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr. Ymgysylltwn yn rheolaidd ac yn aml gyda'n haelodaeth a'r bobl sy'n defnyddio'n gwasanaeth gan ofyn am eu barn, i ddeall eu hanghenion a'u heriau, ac yn natblygiad a rheolaeth gwasanaethau.

Mae gan Adferiad ei chelfi Safonau Ansawdd ei hun ac yn meddu ar nifer o achrediadau ansawdd rhyngwladol yn cynnwys ISO 9001:2015, ISO 14001:2015, a CyberEssentials Plus. Cawn ein rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, a'r Care Quality Comission, ymhlith eraill.

Mae ein tîm data, ymchwil, a gwerthuso yn cynhyrchu adroddiad effaith cyhoeddus bob blwyddyn, sydd yn arddangos ein cynnydd a'n cyflawniadau.

# Ein Targedau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf

- Rydym yn sefydliad a arweinir gan ei haelodau, a'n huchelgais yw y byddwn yn cynyddu ein haelodaeth o 10% y flwyddyn, o leiaf, gyda'r nod y bydd o leiaf 80% o'r rhai sy'n ein cefnogi bob blwyddyn yn dod yn aelodau
- Bod ein harolygon cleientiaid a staff blynyddol yn uwch nac 85% o ran bodlonrwydd
- Byddwn yn cynnal o leiaf 10 adolygiad tystiolaeth sylweddol yn ystod cyfnod y strategaeth yma, fydd yn hysbysu ein datblygiad, ein hymgyrchu, a'n heiriolaeth
- Byddwn yn cadw ein marciau ansawdd presennol a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac yn datblygu 3 safon arall erbyn 2030, yn cynnwys y rhai hynny sy'n arddangos ein diogelwch data
- Byddwn yn gweithio allan, gyda'n buddiolwyr, i gyd-gynhyrchu o leiaf un model gwasanaeth newydd bob blwyddyn
- Bydd ein gwasanaethau'n parhau i gynyddu ein cyrhaeddiad i gymunedau o liw, cefnogaeth i ferched, cyn-filwyr, a'r rhai sy'n ddigartref, a byddwn yn ehangu'r gwasanaethau hyn o 5% y flwyddyn o leiaf
- Byddwn yn darparu ymgyrch flynyddol bob blwyddyn ar fater sy'n bwysig i'n buddiolwyr
- Mae angen i Adferiad barhau gyda'i thwf a'i datblygiad. Anelwn am dwf o 5-10% y flwyddyn mewn trosiant sefydliadol mewn termau real ac, erbyn 2030, bydd o leiaf 5% o'n hincwm yn dod o godi arian a chytundebau anstatudol
- Cydnabyddwn werth, y cyfleoedd, a'r heriau sy'n gysylltiedig â Dealltwriaeth Artiffisial a byddwn yn ymgorffori buddion Dealltwriaeth Artiffisial tra'n sicrhau ein bod yn ei ddefnyddio mewn modd sy'n foesegol a thryloyw i wella deilliannau ar gyfer ein buddiolwyr
- Byddwn yn ymestyn ein heffaith yn lleol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol trwy ymgyrchu, addysg, a rhannu arbenigedd gyda'n partneriaid

**Bydd ein cynlluniau darpariaeth blynyddol yn cael eu cytuno, eu monitro, a'u hadolygu gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr**

# Ein Hadnoddau a Chynaliadwyedd

- Mae gan Adferiad ganolfannau tîm ym mhob sir yng Nghymru, dau safle ysbyty (yn cynnwys un yn Swydd Gaerhirfryn), uned adsefydlu, nifer o eiddo preswyl, a swyddfeydd modern.
- Mae Adferiad yn gweithredu fflyd o dros 50 o gerbydau, yn cynnwys bysiau mini, cludiant bwyd, a cheir.
- Ein nod yw bod ein asedau'n ffocysu ar ategu'r effaith ar gyfer ein buddiolwyr, arbed arian, a gwella ein proffil carbon.

# Ein Partneriaid

Fel un o'r sefydliadau mwyaf o'n math yn y Deyrnas Unedig, mae'n rhaid i ni gynorthwyo a chefnogi sefydliadau sydd ag amcanion tebyg ac mae Adferiad yn croesawu ceisiadau i bartneru. Mae gennym drefniadau prosiect a sefydliadol gwych ar hyn o bryd sydd o fudd i'r bobl hynny sydd angen ein gwasanaethau.

Mae gennym berthnasoedd cryf gyda'r mudiad undebau llafur sy'n cefnogi ein staff, a chyda'n gwleidyddion a'n cydweithwyr yn y sector statudol.

Dangosir ein partneriaid rhyngwladol a chenedlaethol isod, a byddwn yn ymdrechu i adnabod partneriaid newydd, i ddatblygu perthnasoedd newydd, ac i barhau i gynnig cefnogaeth, arloesedd, a chydweithio ar draws Cymru a thu hwnt.

Adferiad

Cefnogi Pobl • Supporting People

info@adferiad.org
01792 816600

www.adferiad.org

Mae Adferiad Recovery yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant

Adferiad Recovery is a registered charity and company limited by guarantee

Cyfeiriad cofrestredig: Tŷ Dafydd Alun, 36 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8LA Rhif Cofrestru: 2751104 Rhif Elusen: 1039386
Registered address: Tŷ Dafydd Alun, 36 Princes Drive, Colwyn Bay, LL29 8LA Registered Number: 2751104 Charity Number: 1039386